

## Atodiad

### Atodiad A

#### Cofnod 1 – Nodiadau Maes ar Arsylwad 1

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: 17/10/2023, Gwers 3: 11:20-12:20, Blwyddyn 8

**Ble a Phryd:** Cyd-destun yr arsylwi – pwnc/MDPh, cyd-destun cyffredinol yr ystafell ddosbarth

Ar Ddydd Mercher, 17eg o Hydref 2023, am 11:20y.b. i'r 12:20 y.p., arsylwyd ar ddosbarth mathemateg Blwyddyn 8. Roedd y dosbarth yn gymysg o ran gallu ac yn gweithio ar waith algebra. Eisteddodd dysgwyr y dosbarth mewn rhesi, efo'r bwrdd blaen yn cael ei benodi i ddysgwyr a oedd angen cymorth neu sylw ychwanegol. Digwyddodd yr arsylwad o dan sylw ar ddechrau'r wers.

**Beth ddigwyddodd:** disgrifiad manwl o'r digwyddiad critigol (gorau po fwyaf o fanylder er mwyn gallu cyfeirio ato yn eich gwaith diweddarach)

Ffocws y wers oedd ymarfer cwestiynau algebra ar lefel TGAU gradd C. Cychwynnwyd y wers gan rannu'r dosbarth i 6 grŵp o 4 dysgwr a chynnal cwis ar y dysgu gweithredwyd yn y wers flaenorol. Dosbarthwyd byrddau gwyn i bob dysgwr er mwyn iddynt gofnodi'r ateb a'i dangos ar y cyd fel dosbarth. Wedyn, cychwynnwyd y cwis gan dangos gwahanol gwestiynau ar y wybodaeth dysgwyd yn y gwersi blaenorol. Nodwyd sgôr pob grŵp ar y bwrdd gwyn ddosbarth gan benodi enillwr ar ddiwedd y cwis.

**Meysydd archwilio posibl:** beth yn eich barn chi a allai fod "o dan yr wyneb" yn y digwyddiadau hyn? Pa lwybrau ymchwil gallech chi eu hystyried?

Gellir archwilio i sawl maes archwilio posibl sy'n gysylltiedig â'r arsylwad hon, efo'r defnydd o dasgau cychwynnol (preliminary) er mwyn atgoffa dysgwyr o ddysgu blaenorol ac annog syniadau ar ddechrau'r wers yn amlygu ei hun fwyaf. O hyn wedyn, gellir archwilio i'r defnydd o waith grŵp a chwisiau ar gyfer y dasg, gan werthuso ei effeithlonrwydd.

Gellir hefyd archwilio i strategaethau asesu o'r digwyddiad hwn, gan edrych ar sut mae'r defnydd o asesu heb y bwriad o raddio yn effeithio ar agwedd a safon gwaith dysgwyr.

**Nodiadau:** unrhyw fanylion gallwch eu nodi (ydy hi'n amgylchedd prysur, ydy hi ar ôl cinio, oes llawer o bethau'n tynnu sylw'r cyfranogwyr, ydy cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud yn eglur – gorau po fwyaf o bethau y gallwch gyfeirio atynt yma)

Digwyddodd yr arsylwad hwn ar ddechrau'r wers felly roedd y dysgwyr wedi cynhyrfu, felly gweithredodd y dasg fel ffordd o sianeli egni'r dosbarth a'i gysylltu at y wers.

## Atodiad B

### Cofnod 2 – Nodiadau Maes ar Arsylwad 2

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: 17/10/2023, Gwers 3: 11:20-12:20, Blwyddyn 8

**Ble a Phryd:** Cyd-destun yr arsylwi – pwnc/MDPh, cyd-destun cyffredinol yr ystafell ddosbarth

Ar Ddydd Mercher, 17eg o Hydref 2023, am 11:20y.b. i'r 12:20 y.p., arsylwyd ar ddosbarth mathemateg Blwyddyn 8. Roedd y dosbarth yn gymysg o ran gallu ac yn gweithio ar waith algebra. Eisteddodd dysgwyr y dosbarth mewn rhesi, efo'r bwrdd blaen yn cael ei benodi i ddysgwyr a oedd angen cymorth neu sylw ychwanegol.

**Beth ddigwyddodd:** disgrifiad manwl o'r digwyddiad critigol (gorau po fwyaf o fanylder er mwyn gallu cyfeirio ato yn eich gwaith diweddarach)

Wrth gyflwyno prif dasg y wers, defnyddiodd yr addysgwyr system o wahaniaethu lefel anhawster y symiau mathemateg ar sail 'Efydd, Arian ac Aur'. Wrth i bawb yn ddosbarth cael ei gyfarwyddo i gwblhau pob cwestiwn Efydd, alluogwyd i ddysgwyr a oedd wedi gorffen i symud ymlaen at Arian, wedyn Aur yn ei thro. Roedd rhaid i'r dysgwyr gwirio ei atebion cyn symud ymlaen yn y dysgu hyn.

**Meysydd archwilio posibl:** beth yn eich barn chi a allai fod "o dan yr wyneb" yn y digwyddiadau hyn? Pa lwybrau ymchwil gallech chi eu hystyried?

Y prif faes archwilio gellir rhoi ffocws i yw'r defnydd o wahaniaethu tasgau ar gyfer cwrdd ag gofynion pob disgybl. Fel nodwyd uchod, mae gallu'r dosbarth mathemateg yn gymysg, felly gellir ymchwilio i sut gellir llwyddo i wahaniaethu'r wers ym mhellach. Gellir hefyd archwilio i'r defnydd o amseru o fewn tasgau, er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio o fewn y wers.

**Nodiadau:** unrhyw fanylion gallwch eu nodi (ydy hi'n amgylchedd prysur, ydy hi ar ôl cinio, oes llawer o bethau'n tynnu sylw'r cyfranogwyr, ydy cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud yn eglur – gorau po fwyaf o bethau y gallwch gyfeirio atynt yma)

Roedd rhan fwyaf o'r dosbarth ar dasg ond roedd rhai yn cael ei sylw wedi tynnu gan ddysgwyr eraill. Roedd dysgwr X yn alluog ond ddim wedi cysylltu efo'r wers, yn arwain at ddiffyg cwblhad o'r gwaith. Roedd cyfarwyddiadau'r dasg yn glir ac yn hygyrch i ddysgwyr o wahanol gallu.

## Atodiad C

### Cofnod 3 – Nodiadau Maes ar Arsylwad Terfynol

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: 17/10/2023, Gwers 3: 11:20-12:20, Blwyddyn 8

**Ble a Phryd:** Cyd-destun yr arsylwi – pwnc/MDPh, cyd-destun cyffredinol yr ystafell ddosbarth

Ar Ddydd Mercher, 17eg o Hydref 2023, am 11:20y.b. i'r 12:20 y.p., arsylwyd ar ddosbarth mathemateg Blwyddyn 8. Roedd y dosbarth yn gymysg o ran gallu ac yn gweithio ar waith algebra. Eisteddodd dysgwyr y dosbarth mewn rhesi, efo'r bwrdd blaen yn cael ei benodi i ddysgwyr a oedd angen cymorth neu sylw ychwanegol. Digwyddodd yr arsylwad hwn ar ddiwedd y wers.

**Beth ddigwyddodd:** disgrifiad manwl o'r digwyddiad critigol (gorau po fwyaf o fanylder er mwyn gallu cyfeirio ato yn eich gwaith diweddarach)

Wrth i'r dysgwyr cwblhau'r symiau mathemategol oddi ar y bwrdd gwyn, aethon nhw ati i hunanasesu ei waith, gan wirio os mae gweithio mas ac atebion nhw'n gywir. Cafodd yr hunanasesu ei weithredu ar ôl i'r dysgwyr gorffen pob lefel o dasg (Efydd, Arian ac Aur). Gwnaeth yr asesu hwn yn unigol, cyn i rai dysgwyr a oedd wedi ateb rhai yn anghywir mynd ati i ofyn am gymorth ychwanegol.

**Meysydd archwilio posibl:** beth yn eich barn chi a allai fod "o dan yr wyneb" yn y digwyddiadau hyn? Pa lwybrau ymchwil gallech chi eu hystyried?

Strategaethau Asesu ar Gyfer Dysgu (AaGD) yw'r prif faes archwilio posib o'r digwyddiad hon. Gellir archwilio i fuddion y defnydd o hunanasesu ar ddysgwyr a sut gellir adeiladu arnynt er mwyn cael y llwyddiant gorau posib mas o'r dysgu. Gellir hefyd archwilio i'r theori o ddysgwyr hunan-reoledig, sy'n gysylltiedig â'r strategaethau AaGD hyn.

**Nodiadau:** unrhyw fanylion gallwch eu nodi (ydy hi'n amgylchedd prysur, ydy hi ar ôl cinio, oes llawer o bethau'n tynnu sylw'r cyfranogwyr, ydy cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud yn eglur – gorau po fwyaf o bethau y gallwch gyfeirio atynt yma)

Trwy'r wers, roedd y cyfarwyddiadau yn glir ac yn eglur, ac wrth arwain y dysgwyr i hunanasesu roedd rhan fwyaf o'r dysgwyr ar dasg. Er hyn, roedd rhai o'r dysgwyr yn cymryd mantais ac yn defnyddio'r amser i drafod neu i gael ei sylw wedi tynnu.